# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 30 Ionawr 2020**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   Cydymdeimlwyd gyda'r Cyng. Ann Williams ar golli ei chwaer yng nghyfraith.
   **Ymddiheuriadau** –dim.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes. Eitem 10-Neuadd Ogwen: Y Cyng. Dyfrig Jones.

**3. Materion Brys**
Dim i'w drafod.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2019.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – cais cynllunio ôl-weithredol wedi ei gyflwyno ar gyfer eu gosod.
**5.2** Cyffordd A5 ger Copa – problem gwelededd gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yn hyn.
**5.3** Llloches bws Sgwar Rachub – cais wedi ei anfon at Cyngor Gwynedd i osod llloches cantilever heb seti ar y safle, ynghŷd a datganiad ysgrifenedig gan breswylydd rhif 3 nad oes ganddo unrhyw wrthynebiad. Disgwyl ymateb Cyngor Gwynedd am beth yw'r cam nesaf.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Cyfarfod ddim tan wythnos nesaf.

**7. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Pawb wedi derbyn copi o'r Adroddiad Cyllid. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.
Biniau halen – angen halen yn y bin yn groeslon Gerlan. Hefyd bod 2 fin halen yn Ffordd Tan y Bwlch. Y bin yn Tan y Foel wedi ei gyfnewid.

**8. Archeb 2020-21**
Penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £115,555.00. Y Clerc i anfon y ffurflen i Gyngor Gwynedd.

**9. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Ysgol Llanllechid-Y Cyng. Godfrey Northam wedi rhoi adroddiad ar y cyfarfod diweddar.

Penderfynwyd bod angen hysbysiad o flaen llaw o unrhyw adroddiad gan gynrychiolydd o hyn ymlaen, er mwyn iddo gael ei nodi ar yr agenda.

**10. Bwrdd Rheoli Neuadd Ogwen**
Daeth cais gan y Bwrdd Rheoli i beidio ail-ethol cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i'r sedd wag ar y Pwyllgor, ond yn hytrach cael yr hawl i gyf-ethol rhywun o'r gymuned. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i hyn ddigwydd.

**11. CCTV**
Y Cyngor yn awyddus mewn egwyddor i'r cynllun fynd yn ei flaen. Y Clerc i holi am fwy o fanylion ynglŷn a sut i ariannu'r prosiect.

**12. Gorffwysfan – defnydd yn y prynhawn**
Yn dilyn trafodaeth am y nifer sy'n mynychu'r Gorffwysfan, penderfynwyd bydd y ganolfan ar gau ar fore dydd Sadwrn o hyn ymlaen.

**13. Clwb Ieuenctid**
Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned am ariannu'r clwb am y flwyddyn sydd i ddod. Gobeithio bydd diddordeb gan bobl lleol ar gyfer y swyddi.

**14. Cae chwarae Pantdreiniog**
Y Cyngor yn awyddus i fynd ymlaen gyda'r offer newydd. Y Clerc i chwilio am 2 bris arall ar gyfer y llawr.

**15. Maes parcio Gerlan**
Yn dilyn llawer o oedi, penderfynwyd terfynu'r gytundeb gyda Cadarn Consulting. Derbyniwyd pris gan YGC am wneud y gwaith, ond bydd angen 2 bris arall hefyd.

**16. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2020'
**16.1** E-bost gan Partneriaeth Ogwen ynglŷn a Cytundeb Clercio a Datblygu Cymunedol 2020-23. Penderfynwyd derbyn y telerau newydd.
**16.2** E-bost gan OWL Cymru, Elusen Atal Troseddu – manylion am sut mae'r gwasanaeth yn cael ei gyllido ar hyn o bryd. Nodwyd yr ohebiaeth.
**16.3** E-bost gan y Cyng. Michael Williams – parcio ar dop Lôn Newydd. Y Clerc i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at y mater.

**16.4** E-bost gan y Cyng. Michael Williams – parcio ger Ysgol Llanllechid.  Y Clerc i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at y mater.
**16.5** E-bost gan Lisa Goodier, Uwch Reolwr Prosiect RRLEA, Cyngor Gwynedd – Rheoli Risg Llifogydd Naturiol dalgylch Dyffryn Ogwen.  Penderfynwyd gwahodd Lisa i'r cyfarfod nesaf.
**16.6** E-bost gan Amanda Murray, Cyngor Gwynedd – y costau ynghlwm â meysydd chwarae Bethesda.  Y Cyngor yn fodlon ystyried derbyn y caeau.
**16.7** Nia Williams, Cyngor Gwynedd – ynglŷn a gwasanaethau bws Arriva, bydd rhaid holi Arriva am y dargyfeiriad.
**16.8** E-bost gan Llywodraeth Cymru – Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – y terfyn ar gyfer 2020-21 sef £8.32 am bob etholwr.  Y Clerc i wirio beth yw'r pwerau statudol.

**17. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

<u>**Penderfyniadau**</u>

**C18/1159/13/AM**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |

**C19/0863/13/LL** *(y Cyng. Ann Williams wedi datgan diddordeb)*

| | |
|---|---|
| Tir ger Ffordd Abercaseg, Bethesda | Mynedfa amaethyddol newydd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |

<u>**Ceisiadau**</u>

**C19/1203/13/DT**

| | |
|---|---|
| Heulwen, 23 Ystad Coetmor, Bethesda | Cais ar gyfer codi estyniad deulawr gyda tô grib yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**C20/0068/13/CT**

| | |
|---|---|
| 18 Braichmelyn, Bethesda | Cais ar gyfer torri 4 coeden wedi eu lleoli o fewn Ardal Gadwraeth.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**18. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Ionawr) | £324.57 |
| CThEM  (Ionawr) | £81.20 |
| Dŵr Cymru - Gorffwysfan | £222.36 |
| Dŵr Cymru – Llys Dafydd | £18.55 |
| E Goodall – glanhau ffenestri Gorffwysfan | £15.00 |
| Llais Ogwan – hysbysebion | £36.00 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £42.53 |
| Scottish Power – trydan Gorffwysfan | £122.76 |
| Snowdonia Fire – gwirio offer tân Gorffwysfan | £27.72 |